# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 3 Hydref 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

## Agenda

(85)v8

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog 26.44 (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Cyfieithu Cofnodion o Drafodion y Cynulliad**
1, 5

**2. Cyhoeddi Cofnodion o Drafodion y Cynulliad**
9

**3.Penodi Swyddog Cyfrifol**
6

**4. Ystyr y Ddarpariaeth**
2

**5. Darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cynllun**
10, 11, 12

**6.Gwasanaethau a ddarperir o dan y Cynllun**
7, 8

**7. Ymgynghori ar y Cynllun**

3, 4

**Dogfennau Ategol:**

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)
Memorandwm Esboniadol Diwygiedig
Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Grwpio Gwelliannau
Nodyn briffio ar y Bil mewn cysylltiad â chymhwysedd deddfwriaethol, Prif Gynghorydd Cyfreithiol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**4. Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog 26.47 (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Comisiynydd gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) o dan Reol Sefydlog 26.47.

**5. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru (60 munud)**

**NDM5053 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Cysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2012.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Dogfennau Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5054 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryderon a fynegwyd ledled Cymru ynghylch cynigion byrddau iechyd lleol ar gyfer dyfodol gofal newyddenedigol; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau y bydd gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn dal ar gael yng Ngogledd Cymru;

b) sicrhau na fydd dim o'r gwasanaethau gofal newyddenedigol presennol yng Ngorllewin Cymru yn cael eu hisraddio; a

c) sicrhau bod capasiti gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn Ne Cymru yn gallu ateb y gofyn.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

sicrhau bod strategaeth ar waith er mwyn gweld gwasanaethau newyddenedigol yn gwella yng Ngorllewin Cymru

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5052 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Cefnogi buddsoddiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod

Cefnogi cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Powys i fuddsoddi yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 9 Hydref 2012